

Astudiaethau Crefydd

Amser a ganiateir – 1.5 awr

Dylai ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn, dim mwy nag UN o unrhyw un Adran.

Ni chaniateir defnyddio Beiblau.

ADRAN A

Y TESTAMENT NEWYDD

1. Rhoddir gwahanol deitlau i Iesu yn yr Efengylau. Archwiliwch unrhyw **ddau** o'r teitlau hyn ac eglurwch eu hystyr a'u harwyddocâd.
2. Beth mae'r damhegion yn ei gyfrannu i ddysgeidiaeth Iesu?
3. Wrth ddarllen y Testament Newydd beth a ddysgwn am natur yr Eglwys Gristnogol yn y ganrif gyntaf?
4. Archwiliwch yn ofalus ddysgeidiaeth foisol Paul.

ADRAN B

YR HEN DESTAMENT

1. Beth a gredwch yw nodweddion mwyaf arwyddocaol y darlun o Dduw yn yr Hen Destament?
2. Disgrifiwch y digwyddiadau a arweiniodd at sefydlu Saul yn frenin ac aseswch ei frenhiniaeth.
3. 'Cafodd proffwydi Israel eu hanwybyddu bob amser'. Aseswch y safbwynt hwn.
4. A oes unrhyw werth crefyddol i Lenyddiaeth Doethineb yr Hen Destament heddiw?

ADRAN C

ASTUDIAETHAU MEWN ATHRONIAETH CREFYDD

1. Archwiliwch y farn mai drwy ddatguddiad yn unig y gellir adnabod Duw.
2. Trafodwch y farn nad yw person yn gallu credu mewn rhagordeiniad **ac** ewyllys rydd.
3. 'Nid yw profiad crefyddol yn ffordd ddibynadwy o ddeall natur Duw/Realiti Eithaf'. Gwerthuswch y datganiad hwn.
4. 'Cred mewn bywyd ar ôl marwolaeth yw'r dylanwad unigol pwysicaf ar sut mae credinwyr crefyddol yn byw eu bywydau'. Gwerthuswch y datganiad hwn.

ADRAN CH

CREFYDD A MATERION CYFOES, GAN GYNNWYS MATERION MOESOL

1. 'Mae syniadau crefyddol a gwyddonol am ddechreuadau bywyd yn anghydnaws â'i gilydd'.
2. A yw credinwyr crefyddol yn rhydd i wneud eu penderfyniadau moesol eu hunain?
3. I ba raddau mae ysgariad yn gyson â dysgeidiaeth grefyddol?
4. Ai damcaniaeth Freud yw'r eglurhad gorau ar greddo crefyddol?

ADRAN D

AGWEDDAU AR GRISTNOGAETH

1. Beth yw 'Diwinyddiaeth Ffeministaidd' ? Beth mae'n ei gyfrannu i feddwl Cristnogol gyfoes?
2. A oes gwerth heddiw mewn dathlu'r hyn a wnaeth Martin Luther bum canrif yn ôl i eleni?
3. Aseswch fywyd a chyfraniad y Fam Teresa a wnaed yn sant yn ddiweddar.
4. Ai amcan anobeithiol yw undeb Cristnogol ?

ADRAN DD

IDDEWIAETH

1. Pa mor arwyddocaol, yn eich barn chi, yw Abraham i Iddewon?
2. 'Yom Kippur yw'r ŵyl bwysicaf mewn Iddewiaeth'. Aseswch y farn hon.
3. 'Mewn Iddewiaeth mae safle dynion yn uwch nag un gwagedd'. Trafodwch y datganiad hwn.
4. Ai ffurf ar wrth-Semitiaeth yw beirniadaeth ar wladwriaeth fodern Israel?

ADRAN E

ISLAM

1. 'Mae'r Qur'an yn dal i fod yn brif ffynhonnell awdurdod oddi mewn i Islam.' Aseswch y farn hon.
2. Eglurwch arwyddocâd y digwyddiadau allweddol ym mywyd Muhammad wedi ei alwad i fod yn broffwyd.
3. Aseswch ddylanwad Swfiaeth ar ledaeniad Islam.
4. Gwerthuswch ddysgeidiaeth Islamaidd am hawliau a statws gwagedd.

ADRAN F

HINDŴAETH

1. Aseswch bwysigrwydd yr Upanishads mewn Hindŵaeth.
2. Archwiliwch y rhan mae'r cartref yn chwarae yn nefosiwn yr Hindŵ.
3. Esboniwch y ddysgeidiaeth Hindŵaidd am *karma*.
4. Archwiliwch a rhowch gyfrif am nodweddion arbennig Hindŵaeth yn y cyfnod modern.

ADRAN FF

BWDHAETH

1. Gwerthuswch y farn mai athrawiaeth fwyaf pwysig Bwdhaeth yw'r Pedwar Gwirionedd Nobl.
2. Gwerthuswch y farn mai'r digwyddiad unigol pwysicaf yn hanes Bwdhaeth oedd profiad y Bwdha o dan y goeden *bodhi*.
3. Ystyriwch hanes syniadau lleyg a mynachaid Bwdhaeth Therafada.
4. Dadansoddwch rai o'r rhesymau posibl pam mae Bwdhaeth yn grefydd boblogaidd yn y Gorllewin heddiw.